# CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH EIDDO GWAG

This document is also available in English

Gofynnir yn aml i ni am restrau o eiddo gwag yng Nghonwy.  Nid ydym yn cadw rhestr o'r eiddo gwag i gyd.

**Gwybodaeth sydd gennym ni ac sydd ar gael i'r cyhoedd:**

Mae gennym ni wybodaeth am eiddo yr ydym ni wedi cael gwybod eu bod nhw'n wag at ddibenion Trethi Busnes (Trethi Annomestig Cenedlaethol). Mae rhestr o eiddo masnachol gwag ar ein gwefan: https://www.conwy.gov.uk/cy/Business/Business-Rates/Lists-of-local-Business-Rates-payers.aspx

**Gwybodaeth sydd gennym ni nad yw ar gael i'r cyhoedd:**

Mae gennym ni restr o eiddo domestig gwag yn ein cofnodion Treth y Cyngor.  Nid ydym yn rhyddhau hyn oherwydd ein bod ni'n ystyried bod hyn wedi'i eithrio rhag cael ei ddatgelu dan adran 31(1)(a) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**Adran 31(1)(a) - Gorfodi'r Gyfraith**

Nid ydym yn rhyddhau enwau, busnesau na chyfeiriadau eiddo preswyl gwag gan ein bod ni'n ystyried y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn eu gwneud nhw'n darged i drosedd. Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu dan adran 31(1)(a) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Adran 31(1)(a) yn dweud nad oes angen i ni ddarparu gwybodaeth a fyddai'n debygol o ymyrryd â swyddogaethau gorfodi'r gyfraith – atal a chanfod troseddau.

Mae Conwy yn credu y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn cynyddu'r tebygolrwydd o:

- Sgwatwyr yn byw mewn eiddo gwag. Mae sgwatio mewn eiddo preswyl bellach yn drosedd.
- Eiddo gwag yn cael eu targedu gan fandaliaid neu artistiaid graffiti a deunyddiau fel toeau, ceblau neu bibellau yn cael eu dwyn, neu fod yr eiddo gwag yn cael eu fandaleiddio neu eu difrodi mewn ffordd arall.
- Eiddo gwag yn cael eu targedu gan droseddwyr neu derfysgwyr, er enghraifft, maen nhw'n caniatáu iddynt guddio neu storio enillion troseddau, neu ddeunyddiau troseddol neu derfysgol.

Gweler yr achosion canlynol sy'n cefnogi'r dull hwn:

- Yn 2013, cadarnhaodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (EA/2001/0007 23 Ionawr 2013) benderfyniad Bwrdeistref Camden yn Llundain i gymhwyso Adran 31 (1)(a) i'r wybodaeth.
- Yn 2019, cadarnhaodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (EA/2018/0055) benderfyniad Cyngor Dinas Sheffield i gymhwyso Adran 31(1)(a) i'r wybodaeth.
- Yn 2029, cadarnhaodd Hysbysiad Penderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth FS50786336 benderfyniad Bwrdeistref Hackney yn Llundain i gymhwyso Adran 31(1)(a) i'r wybodaeth.
- Yn 2022/3, cadarnhaodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf benderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gadarnhau penderfyniad Bwrdeistref Hounslow yn Llundain i atal y wybodaeth dan Adran 31(1)(a).
- Yn 2024, cadarnhaodd Hysbysiad Penderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth IC-274382-J3Y0 benderfyniad Cyngor Dosbarth Newark a Sherwood i atal y wybodaeth dan Adran 31(1)(a).

Mae'r gyfraith wedi'i setlo ar y pwynt hwn.

**Prawf Lles y Cyhoedd:**

Gan fod Adran 31 yn eithriad cymwysedig, mae angen i ni ystyried prawf lles y cyhoedd.

Ffactorau o blaid datgelu gwybodaeth

- Mae dadleuon cyffredinol o blaid hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd awdurdodau cyhoeddus.
- Byddai codi proffil eiddo gwag yn helpu i annog ymgysylltiad a thrafodaeth gyhoeddus.

Ffactorau o blaid peidio â datgelu’r wybodaeth

- Mae diddordeb cyhoeddus mewn atal troseddu. Ystyriwyd hyn gan y Tribiwnlys yn achos Voyias.
- Mae diddordeb cyhoeddus mewn osgoi'r costau sy'n gysylltiedig â sgwatio, er enghraifft costau atgyweirio, diogelwch a throi allan.
- Mae effaith negyddol sgwatio yn effeithio ar y gymuned ehangach a'r awdurdodau cyhoeddus cysylltiedig, nid yr eiddo unigol yn unig

Credwn mai cynnal yr eithriad a pheidio â datgelu’r wybodaeth yw’r ffordd orau o wasanaethu lles y cyhoedd. Mae'r penderfyniad hwn wedi cael ei gadarnhau dro ar ôl tro gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

**Cyngor a Chymorth**

Rydym ni’n gwybod y bydd gan rai unigolion sy’n gofyn am wybodaeth resymau dilys dros ofyn am y wybodaeth hon. Fodd bynnag, mae rhyddhau gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn golygu ei bod yn cael ei rhannu â’r byd i gyd, nid â’r unigolyn sy’n gofyn am y wybodaeth yn unig, ac ni allwn ystyried rhesymau’r unigolyn dros ofyn.

Efallai y bydd tudalen Cartrefi Gwag y Cyngor yn ddefnyddiol i chi:
https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/HousingServices/Empty-homes/Home.aspx

Mae gennym ni wybodaeth am eiddo yr ydym ni wedi cael gwybod eu bod nhw’n wag at ddibenion Trethi Busnes (Trethi Annomestig Cenedlaethol). Mae rhestr o eiddo masnachol gwag ar ein gwefan:
https://www.conwy.gov.uk/cy/Business/Business-Rates/Lists-of-local-Business-Rates-payers.aspx

**Eich Hawliau**

Os ydych chi wedi gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth ac nad ydych chi'n fodlon â sut yr ymdriniwyd â’ch ymateb, gallwch chi ofyn am Adolygiad Mewnol – gweler yma:
https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Access-to-Information/Freedom-of-Information.aspx